








Cyflwyniad

	<p>Ni yw Capita. Ni sy'n cynnal asesiadau Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) i'r Adran Gwaith a Phensiynau.</p>
	<p>Mae asesiad yn helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddeall y math o gefnogaeth sydd ei angen arnoch.</p>
	<p>Rydym yn eich annog i ddod â chydymaith gyda chi i'ch asesiad.</p> <p>Gallai cydymaith eich cefnogi a'ch helpu egluro sut mae'ch cyflwr yn effeithio arnoch.</p>
	<p>Os byddwch yn cael asesiad dros y ffôn neu fideo, bydd eich cydymaith yn cael ei g / chynnwys yn yr alwad.</p>
	<p>Rhai enghreifftiau o bwy allwch chi ddod gyda chi yw:</p> <ul style="list-style-type: none">• Aelod o'r teulu neu ffrind• Eich gweithiwr allweddol• Eich gweithiwr cymdeithasol• Eich nyrs gymunedol

Dyma ychydig o wybodaeth i rannu gyda'ch cydymaith cyn eich asesiad.

	<p>Bydd eich cydymaith yn gallu cyfrannu at yr asesiad, ond nid siarad drosoch.</p>
	<p>Ar ddechrau'r asesiad, bydd y gweithiwr proffesiynol iechyd yn gofyn a ydych yn fodlon i'ch cydymaith fod yno.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y gweithiwr proffesiynol iechyd yn cofnodi yn yr adroddiad asesu fod gan eich cydymaith ran yn yr asesiad.
	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd y gweithiwr proffesiynol iechyd yn gofyn i chi wneud ychydig o symudiadau corfforol, ni fydd eich cydymaith yn eich helpu.
	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd eich cydymaith yn gallu cymryd nodiadau yn ystod yr asesiad. • Does dim rhaid rhannu'r nodiadau gyda Capita na'r Adran Gwaith a Phensiynau.
	<ul style="list-style-type: none"> • Os ydych yn cytuno, bydd eich cydymaith yn gallu siarad gyda'r gweithiwr proffesiynol iechyd ar wahân ar ôl yr asesiad.
	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y gweithiwr proffesiynol iechyd yn gallu gofyn i'ch cydymaith adael yr asesiad os bydd yn aflonyddu. • Nid yw hyn yn debyg o ddigwydd.

Sut i gysylltu â ni os ydych angen cefnogaeth

	<p>Os hoffech holi unrhyw beth ynghylch eich asesiad, cysylltwch â ni.</p>
	<p>Rydym yn agored o 8am to 8pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener.</p>
	<p>Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd yn rhaid iddyn nhw fod yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol.</p>
	<p>Ffoniwch am ddim ar 0808 178 8114 (llinell Cymraeg 0808 178 8115).</p>
	<p>Os nad ydych yn gallu clywed neu siarad ar y ffôn, cewch ddefnyddio NGT neu Relay UK: 18001 ac yna 0808 178 8114.</p>
	<p>Os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddo Brydeinig, cewch ddefnyddio'r Gwasanaeth Relay Fideo.</p> <p>Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd: www.capita-pip.co.uk/cy/cysylltwch-ni</p> <p>Sgroliwch i lawr i "Gwasanaeth cyfnewid fideo" a chliciwch ar y ddolen.</p>



Cewch hefyd ysgrifennu atom:

**Capita PIP
PO Box 307
Darlington
DL98 1AB**



Neu ein he-bostio: contactus@capita-pip.co.uk